FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Sir Powys
24 - 28 Mai 2004

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau unedol, yn bennaf, yw gorfodi cyfraith fwyd sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Cydnabyddir y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdod lleol yn ôl 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad A.

	CYNNWYS	Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**4**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**6**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**8**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**12**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**13**
6	Cyfleusterau ac Offer	**16**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**17**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**22**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**23**
10	Cyngor i Fusnesau	**24**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**25**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**26**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**29**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**31**
15	Gorfodaeth	**33**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**37**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**40**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**41**
19	Monitro Mewnol	**42**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**44**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**46**
	Atodiad	
A	Geirfa	

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Sir Powys o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid Cyngor Sir Powys. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod yn Y Trallwng, Y Drenewydd, Aberhonddu a Llandrindod rhwng 24 – 28 Mai 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Mae Cyngor Sir Powys yn Awdurdod Unedol Cymreig, a ganolir ar Dref Sirol Llandrindod yng Nghanolbarth Cymru. Mae'n cynnwys ardal o 519,700 hectar, rhyw chwarter cyfanswm ehangdir Cymru, ac mae iddi boblogaeth o ryw 126,300.

1.7 Mae'r ardal, yn bennaf, yn wledig, gyda ffermio da byw yn ffurfio sector bwysig yn yr economi lleol. Mae'r prif ganolfannau poblogaeth yn cynnwys Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Llandrindod, Trefyclo, Machynlleth, Y Drenewydd, Y Trallwng ac Ystradgynlais. O'r rhain, dim ond Y Drenewydd sydd â phoblogaeth o fwy na 10,000.

1.8 Mae Powys yn gartref i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru bob blwyddyn, a gynhelir yn Llanelwedd, ger Llanfair-ym-Muallt. Mae nifer o ddigwyddiadau pwysig eraill hefyd yn denu nifer fawr o ymwelwyr i ardal yr Awdurdod, gan gynnwys Gwyl Lenyddiaeth y Gelli Gandryll a Gwyl Jas Aberhonddu.

1.9 Gan Adran Gwarchod y Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Grwp y Gwasanaethau Cymunedol, a leolir yn Neuadd y Sir, Llandrindod, y mae'r cyfrifoldeb am orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, ac am ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy, a'u rheoli.

1.10 Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o rwydwaith o swyddfeydd ardal sydd ar agor i'r cyhoedd rhwng 08.30 a 16.45, o ddydd Llun i ddydd Iau, a than 16.15 ddydd Gwener. Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithredu gwasanaeth 'Llinell Gymorth' 24 awr, a gwasanaeth brys â staff ar wahân y tu allan i oriau gwaith arferol.

1.11 Yn ei Gynllun Gwasanaeth, nododd yr Awdurdod y cynigiwyd gwneud y gweithgareddau canlynol yn ystod 2004 – 2005:

- Cynnal 1700 o arolygiadau bwyd a bwydydd anifeiliaid;
- Cymryd 695 o samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid;
- Ymdrin ag amcangyfrif o 285 o gwynion am fwyd a bwydydd anifeiliaid;
- Ymdrin ag amcangyfrif o 60 o geisiadau am gyngor gan fusnesau;
- Cynnal 180 o ymweliadau ymgynghorol ynghylch hylendid bwyd;
- Ymdrin ag amcangyfrif o 320 o achosion unigol o wenwyn bwyd ac achosion o wenwyn bwyd.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cyflawni nifer o'i ddyletswyddau mewn ffordd gynhwysfawr, gan gynnwys samplo bwyd a bwydydd anifeiliaid, trwyddedu siopau cigyddion a gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref. Hefyd, dangosai'r Awdurdod ymrwymiad i weithgarwch hyrwyddo a datblygiad proffesiynol parhaus ei swyddogion.

2.2 Penodwyd nifer o swyddogion gorfodi gan yr Awdurdod nad oedd ganddynt y cymwysterau gofynnol, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, o ran na chofrestrid Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd gyda Bwrdd Cofrestru Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. Mae ar Awdurdodau ddyletswydd i ddilyn darpariaethau'r Cod Ymarfer, a dim ond swyddogion â chanddynt naill ai'r cymwysterau penodedig, neu y dyfarnwyd bod eu cymwysterau yn gyfartal â'r rheiny a bennwyd, y dylid eu hawdurdodi.

2.3 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu Gweithgor amlddisgyblaethol Lladd Anifeiliaid yn Anghyfreithlon i ymdrin â'r fasnach mewn cig anifeiliaid a laddwyd yn anghyfreithlon yn yr ardal. Hefyd, roedd yr Awdurdod yn parhau i ymwneud llawer iawn â chanlyniadau'r achos o glwy'r traed a'r genau, gan gyhoeddi rhyw 50,000 o drwyddedau symud anifeiliaid yn ystod y flwyddyn cyn yr arolygiad.

2.4 **Cryfderau'r Awdurdod**

Hyfforddi Swyddogion
Roedd gan yr Awdurdod ymagwedd flaengar at ddarparu hyfforddiant i swyddogion, a brofwyd trwy gyflawni achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a chynnig cyfleoedd hyfforddi helaeth i staff. Roedd hyn wedi galluogi'r rhan fwyaf o'r swyddogion i fwy na rhagori ar y gofynion sylfaenol ar gyfer datblygiad parhaus.

Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid
Roedd samplo safonau bwyd, hylendid bwyd a bwydydd anifeiliaid oll yn cael eu gwneud yn unol â gweithdrefnau cytunedig yr Awdurdod, a chydag ystyriaeth i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd cofnodion wedi'u cadw'n dda, a chymerwyd camau dilynol priodol.

Safleoedd Awdurdod Cartref Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid
Roedd tystiolaeth bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid gyda'i fusnesau Awdurdod Cartref a Gwreiddiol, a'i galluogai i wireddu ei gyfrifoldebau o dan Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn effeithiol.

Trwyddedu Siopau Cigyddion
Roedd gweithdrefnau a chofnodion dogfenedig yr Awdurdod ar gyfer trwyddedu siopau cigyddion yn arbennig o gynhwysfawr. Galluogai cyfres o ffurflenni safonol y swyddogion i brosesu ceisiadau yn systematig, gan gofnodi gweithgareddau busnes, hyfforddiant hylendid, manylion systemau HACCP, ac asesiad o gydymffurfiad â deddfwriaeth berthnasol.

Gweithgarwch Hyrwyddo Bwyd
Cefnogai ystod eang o weithgarwch hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd ymrwymiad i raglen ragweithiol, gan ategu swyddogaethau statudol yr Awdurdod.

2.5 Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod

Awdurdodi Swyddogion Gorfodi Hylendid Bwyd
Penodwyd nifer o swyddogion gan yr Awdurdod i wneud gwaith gorfodi hylendid bwyd nad oedd eu cymwysterau'n bodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Arolygu Safleoedd Bwydydd Anifeiliaid Cofrestredig a Chymeradwy
Nid oedd yr Awdurdod yn sicrhau bod ei weithgarwch o ran gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid mewn safleoedd cofrestredig a Safleoedd Cymeradwy yn gymesur â natur wledig iawn yr ardal, a lefel y cynhyrchu sylfaenol o ran da byw ar gyfer y gadwyn fwyd.

Amlder Arolygu Safleoedd
Nid oedd yr Awdurdod yn cynnal arolygiadau safonau bwyd a hylendid bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer Rhif 8 a 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Dylid cynnal arolygiadau yn ôl yr amlderau sylfaenol penodedig i sicrhau y nodir unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediad busnesau bwyd mewn da bryd.

Cofnodion Gorfodi Hylendid Bwyd yn Ffurfiol
Roedd cofnodion ynghylch rhybuddion ffurfiol, Rhybuddion Gwahardd Brys, ac ildio bwyd yn wirfoddol yn annigonol i ddangos y bodlonwyd gofynion statudol ac y dilynid gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod.

Canfyddiadau'r Archwiliad

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Yn 2002, ailstrwythurodd yr Awdurdod ei broses benderfynu i weithredu â Bwrdd o 15 o Ddeiliaid Portffolio a system Bwyllgor a symleiddiwyd. Roedd gan Dri Aelod Bwrdd gyfrifoldeb penodol am y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

3.2 Dirprwyai'r Cyfansoddiad, a nodai drefniadau penderfynu'r Awdurdod yn fanwl, faterion penodol i'w Bwyllgorau a materion eraill i'w swyddogion.

3.3 Cyfrifoldeb Adran Gwarchod y Cyhoedd Cyfarwyddiaeth Grwp y Gwasanaethau Cymunedol oedd cyflwyno gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod.

3.4 Cynhwysai fframwaith cynllunio corfforaethol yr Awdurdod ei Gynllun Gwella Corfforaethol, a gynhyrchid ac a adolygid yn flynyddol yn rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

3.5 Nid oedd Cynllun Gwella Corfforaethol 2004 – 2005 ar gael adeg yr archwiliad. Nodai cynllun 2003 - 2004 bum prif flaenoriaeth yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn honno, sef:

- Cynnig arweiniad yn y gymuned;
- Cynnig gwasanaeth o ansawdd a gydnabyddir yn werth da am arian ac sy'n bodloni anghenion ei ddinasyddion;
- Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a brwydro yn erbyn eithrio cymdeithasol;
- Hyrwyddo adfywio economaidd a chymunedol;
- Gwella ac amddiffyn yr amgylchedd.

3.6 Amlygodd y Cynllun nifer o feysydd i'w gwella'n gorfforaethol, a oedd yn cynnwys:

- Datblygu technegau rheoli perfformiad;
- Gwella'r gallu i nodi, casglu, gwirio a monitro gwybodaeth am berfformiad;
- Datblygu rhaglen gorfforaethol i flaenoriaethu dyraniad adnoddau.

3.7 Nododd y Cynllun 21 o nodau ac amcanion i Gyfarwyddiaeth Grwp y Gwasanaethau Cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Amddiffyn a hyrwyddo iechyd a diogelwch y cyhoedd, a gwella amodau amgylcheddol;
- Sicrhau y cyflawnid y swyddogaethau statudol a rheoleiddiol yr oedd y Gyfarwyddiaeth yn gyfrifol amdanynt yn effeithlon ac yn effeithiol.

3.8 Hefyd, cynhwysai'r Cynllun fanylion am berfformiad yr Awdurdod mewn blynyddoedd blaenorol, a nodai ddangosyddion a thargedau perfformiad ar gyfer 2003 -2004. Y dangosyddion perfformiad a ddefnyddid ar gyfer bwyd a bwydydd anifeiliaid oedd:

- Canran yr arolygiadau ar safleoedd bwyd y dylid bod wedi'u gwneud, ac a wnaed mewn gwirionedd, ar gyfer:
  (a) safleoedd risg uchel;
  (b) safleoedd eraill;

- Sgôr yn erbyn rhestrau gwirio arfer gorau gorfodi ar gyfer iechyd yr amgylchedd;

- Sgôr yn erbyn rhestrau gwirio arfer gorau gorfodi ar gyfer safonau masnach.

3.9 Yn ystod 2003 – 2004, amcangyfrifai'r Awdurdod y byddai'n cyflawni 75% o arolygiadau hylendid bwyd a oedd i'w gwneud ar safleoedd uchel eu risg, a 40% o arolygiadau ar safleoedd eraill. Diwygiwyd y targedau hyn i 85% a 50%, yn y drefn honno, ar gyfer 2004 - 2005.

3.10 Hefyd, cynhwysai'r Cynllun asesiad o berfformiad gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a'r gwasanaeth Safonau Masnach. Amlygai hyn y ffaith y bu perfformiad yr Awdurdod islaw cyfartaledd Cymru, ac nad oedd yr Awdurdod wedi bodloni ei dargedau ei hun o ran arolygu safleoedd bwyd.

3.11 Darparodd yr Awdurdod gopi o'i Gynllun Gwasanaeth Bwyd ar gyfer 2003 - 2004 gyda'r ddogfennaeth cyn-arolygu, a chopi o Gynllun 2004 - 2005 yn ystod yr archwiliad.

3.12 Cynhwysai'r Cynlluniau Gwasanaeth orfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ac, yn gyffredinol, bodlonai ofynion yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Fwyd gan Awdurdod Lleol.

3.13 Nid oedd y Cynlluniau Gwasanaeth yn ymdrin â phroffil graddio risg hylendid bwyd, nifer yr arolygiadau safonau bwyd a raglennwyd ym mhob categori risg, na nifer yr arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd a oedd yn hwyr.

3.14 Cymeradwywyd Cynllun 2003 - 2004 gan y Pwyllgor Gwasanaethau Cymunedol, yn amodol ar fân ddiwygio, ar 31 Mawrth 2003. Adeg yr archwiliad, roedd Cynllun 2004 – 2005 ar ei ffordd trwy gylchred y pwyllgorau.

3.15 Cynhwysai Cynllun Gwasanaeth 2003 - 2004 dargedau perfformiad ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd, a oedd yn wahanol i'r rheiny a nodwyd yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2003 - 2004 yr Awdurdod, ac a oedd yn is na'r amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

3.16 Cynhwysid adolygiad perfformiad o Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol yng Nghynlluniau Gwasanaeth 2003 - 2004 a 2004 - 2005, er nad oedd y naill na'r llall yn nodi'r ôl-groniad sylweddol o arolygiadau safonau bwyd hwyr o flynyddoedd blaenorol a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

3.17 Roedd staff yn ymwybodol o'u rôl o ran cyflwyno'r gwasanaeth a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, ac o'u targedau perfformiad perthnasol.

3.18 Yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd 2004 – 2005 yr Awdurdod, amcangyfrifwyd mai lefel staffio Adran Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer gweithgareddau gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid oedd 11.65 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE). Cymharai hyn ag FTE gwirioneddol o 11.37 a adroddwyd gan yr Awdurdod mewn dogfennaeth cyn-arolygu.

3.19 Cyllideb ariannol net y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd ar gyfer 2004 - 2005 oedd £647,050.

3.20 Cyllideb ariannol net y gwasanaeth gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ar gyfer 2004 - 2005 oedd £100,727.

Argymhellion

3.21 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth yn ymdrin â'r holl faterion a restrir yn yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Cynnal a dogfennu adolygiad perfformiad blynyddol ar sail y Cynllun Gwasanaeth, a chyflwyno pob adolygiad blynyddol i'w gymeradwyo

gan yr Aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

(iii) Ymdrin ag unrhyw amrywiad a nodwyd gan yr adolygiad perfformiad yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol. [Y Safon - 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd yr Awdurdod wedi dogfennu ei bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer mwyafrif y gweithgareddau gorfodi a gynhwysid yn Y Safon, er bod rhai ohonynt ar ffurf ddrafft. Ni adolygwyd rhai eraill yn ôl yr amlderau priodol, fel a fanylwyd yn ei bolisi dogfenedig.

4.2 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu system reoli ddogfenedig o ran ei weithgareddau gorfodi i sicrhau:

- Bod copïau cyfredol o ddogfennaeth briodol, gan gynnwys deddfwriaeth ac arweiniad, ar gael yn yr holl leoliadau perthnasol ac i'r holl staff perthnasol;

- Y cynhwysid newidiadau neu ddiwygiadau gan yr awdurdodiad cywir, a'u bod yn cael eu gwneud heb oedi gormodol; neu y gwaredid dogfennau a ddisodlwyd.

4.3 Datgelodd gwiriad archwilio bod gan swyddogion, yn gyffredinol, fynediad at fersiynau presennol deddfwriaeth, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a dogfennaeth arall.

Argymhelliad

4.4 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau yr adolygir yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer y gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon, yn rheolaidd ac yn ôl yr amlder priodol. [Y Safon – 4.1]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Cynhwysai Cyfansoddiad yr Awdurdod ddirprwyo cyffredinol i Brif Swyddogion yr Awdurdod weithredu ar ran y Cyngor ynghylch unrhyw faterion oddi mewn i'r maes gwasanaeth y mae ef/hi'n gyfrifol amdanynt. Yn yr un modd, awdurdodid swyddogion eraill a awdurdodwyd yn benodol gan y Prif Swyddog i weithredu yn absenoldeb y Prif Swyddog neu ar adegau eraill, yn unol â'u hawdurdod.

5.2 Awdurdodai'r Cyfansoddiad Brif Swyddogion yr Awdurdod i benodi staff ac awdurdodi staff i ddefnyddio pwerau i gael mynediad i dir, adeiladau a safleoedd a'u harolygu. Prif Swyddog perthnasol Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd oedd Cyfarwyddwr Grwp y Gwasanaethau Cymunedol.

5.3 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig, dyddiedig 28 Ionawr 2003, i awdurdodi swyddogion i orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid. Nodai'r weithdrefn hon y byddid yn awdurdodi swyddogion i gynnal arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r meini prawf a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Fodd bynnag, nodwyd meini prawf a gweithdrefnau gwahanol i awdurdodi swyddogion ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd yn nogfen Protocolau a Gweithdrefnau Arolygu Hylendid Bwyd.

5.4 Datgelodd archwiliad o'r awdurdodiadau a wnaed na chymhwysid yr un o'r gweithdrefnau dogfenedig yn gyson drwy'r Awdurdod, ac nad oedd rhai swyddogion a awdurdodwyd i gynnal arolygiadau hylendid bwyd yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

5.5 Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfenedig yr aseswyd cymhwysedd swyddogion newydd eu penodi, nac y cafwyd unrhyw hyfforddiant strwythuredig i swyddogion a oedd wedi symud i faes gorfodi cyfraith fwyd o faes arbenigedd arall neu a oedd wedi dychwelyd i orfodi bwyd ar ôl cyfnod estynedig.

5.6 Penodwyd swyddogion arweiniol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, a gwiriwyd yn ystod yr archwiliad fod gan y swyddogion hyn y wybodaeth, hyfforddiant a chymwysterau arbenigol perthnasol sy'n ofynnol i'w penodi.

5.7 Dangosai archwiliad o gofnodion arolygu a chofnodion eraill fod swyddogion wedi ymddwyn yn unol â'r awdurdod a roddwyd iddynt.

5.8 Rhoddwyd dogfennau penodi i swyddogion awdurdodedig, a lofnodwyd gan y Prif Swyddog priodol yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod, a nodai i ba raddau yr oedd gan bob swyddog yr awdurdod i weithredu.

5.9 Nodwyd bod gan ddogfennau penodi, a ddiweddarwyd ac a ailgyhoeddwyd i gynnwys deddfwriaeth newydd, y dyddiad y cyhoeddwyd y ddogfen wreiddiol, ac nid dyddiad ei hailgyhoeddi.

5.10 Er y cynhwysai'r awdurdodiadau orfodi Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, nid oeddent yn cynnwys unrhyw Reoliadau penodol a wnaed o dan y Ddeddf.

5.11 Priodolodd yr Awdurdod ei anallu i fodloni targedau perfformiad arolygu hylendid bwyd i gyfuniad o anawsterau recriwtio, salwch hirdymor, absenoldeb mamolaeth, a ffactorau cysylltiedig eraill. Penderfynodd benodi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd dros dro am gyfnod o 12 mis i ymdrin â'r ôl-groniad arolygu hwn.

5.12 Hefyd, nododd yr Awdurdod nifer o faterion eraill a effeithiai ar ei allu i gyflwyno ei wasanaethau yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Cynhwysai'r rhain ymchwiliadau i ladd anifeiliaid yn anghyfreithlon a chanlyniadau'r achosion o glwy'r traed a'r genau a ganfuwyd yn yr ardal yn ystod yr achos cenedlaethol.

5.13 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Adolygu a Datblygu Staff corfforaethol a oedd yn gymwys i'w holl staff. Darparai'r cynllun ar gyfer monitro datblygiad personol, nodi, dogfennu a rhaglennu anghenion hyfforddi, datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi, a chofnodi hyfforddiant a wnaed, gan gynnwys datblygiad parhaus, a gwneud hyn i gyd yn systematig.

5.14 Enillodd y Gwasanaeth Safonau Masnach achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP), ac roedd Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn gweithio tuag at gael ei achredu adeg yr archwiliad.

5.15 Yn gyffredinol, roedd cofnodion hyfforddiant ar gael, er y nodwyd nad oedd cofnodion yr hyfforddiant a wnaed yn nodi, bob tro, gynnwys ac amcanion y cwrs, parhad yr hyfforddiant, ac unrhyw asesiad a wnaed.

5.16 Dangosai cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad ymrwymiad yr Awdurdod i addysg a'i ymagwedd gadarnhaol at ddatblygiad personol a phroffesiynol. Cawsai staff amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, ac roedd gofynion datblygiad parhaus Codau Ymarfer Rhif 8, 9 a 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd yn cael eu bodloni.

5.17 Ni chedwid copïau o gofnodion cymwysterau academaidd allweddol a chymwysterau eraill allweddol ei holl swyddogion gorfodi cyfraith fwyd gan yr Awdurdod. Felly, ni allai ddangos fod swyddogion a awdurdodwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer perthnasol. Sefydlodd yr Archwilwyr yr awdurdodwyd 3 swyddog yn amhriodol i orfodi hylendid bwyd.

Argymhellion

5.18 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu'r holl weithdrefnau dogfenedig presennol sy'n ymdrin ag awdurdodi swyddogion i sicrhau eu bod yn ymdrin yn gyson â chymhwysedd swyddogion yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau ei fod wedi penodi digon o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r rhaglen a nodwyd yn ei gynllun cyflwyno gwasanaeth, a bod gan swyddogion gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas sy'n gyson â'u hawdurdod a'u dyletswyddau, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iii) Cofnodi cynnwys, amcanion, parhad ac unrhyw asesiad a wnaed o ran cyrsiau hyfforddi a fynychwyd gan staff gorfodi cyfraith fwyd.
[Y Safon – 5.4]

(iv) Sicrhau y cedwir cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu unrhyw gymwysterau perthnasol eraill ar gyfer pob swyddog awdurdodedig a staff ategol priodol, yn unol â Chod Ymarfer Perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 5.5]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ar gael.

6.2 Sefydlwyd Polisi Calibro Offer i sicrhau bod offer yn cael eu cynnal a'u calibro'n briodol ac yn cael eu gwaredu o ganfod eu bod yn ddiffygiol, er nad oedd yn nodi amlderau neu ffiniau goddefiant calibro.

6.3 Calibrwyd offer mesur tymheredd yn rheolaidd a chedwid cofnodion, er bod y cofnodion hyn o werth cyfyngedig yn absenoldeb amlderau a ffiniau goddefiant penodedig ar gyfer calibro.

6.4 Ystyrid bod y gronfa ddata safleoedd yn gallu cynnig y wybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.5 Derbyniodd defnyddwyr y system hyfforddiant ynghylch defnyddio cyfleuster adrodd annatod y gronfa ddata, a hyfforddwyd gweinyddwyr y system i gynhyrchu ystod o adroddiadau ar gyfer dadansoddiadau data manwl. Galluogai hyn yr Awdurdod i gynhyrchu adroddiadau a dadansoddiadau rheoli a pherfformiad cymhleth yn fewnol.

6.6 Cymerwyd copïau wrth gefn cynyddol o'r gronfa ddata yn ddyddiol gan yr adran TG, a gwnaed copi wrth gefn llawn o'r system bob penwythnos. Storiwyd tapiau wrth gefn mewn diogell a allai wrthsefyll tân a chedwid copïau oddi ar y safle gan yr Adran Archifau.

Argymhelliad

6.7 Dylai'r Awdurdod:

Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau y caiff offer eu cynnal a'u calibro'n briodol, a'u gwaredu o ganfod eu bod yn ddiffygiol. [Y Safon – 6.2]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nododd Cynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod ar gyfer 2004 – 2005 bod 2559 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun arolygiadau hylendid bwyd, y cofrestrwyd 1783 ohonynt yn ffurfiol.

7.2 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth mai targed arolygu hylendid bwyd yr Awdurdod ar gyfer arolygiadau a oedd i'w gwneud yn ystod 2004 - 2005 oedd 85% o'r safleoedd a raddiwyd yn rhai 'uchel eu risg', a 50% o'r rhai 'eraill. Roedd hyn yn wahanol i ofyniad Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd y gwneir 100% o'r arolygiadau sydd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn.

7.3 Ni nodwyd proffil graddio risg hylendid bwyd na nifer yr arolygiadau a oedd yn hwyr yn y Cynllun Gwasanaeth. Dangoswyd rhaglen arolygu hylendid bwyd 2004 - 2005 fel a ganlyn:

Categori Risg	Nifer yr Arolygiadau a dargedwyd
A	**134**
B	**292**
C	**429**
D	**154**
E	**121**
F	**45**
Heb eu Graddio	**114**
Cyfanswm	**1289**

7.4 Roedd gan yr Awdurdod ddogfen Protocolau a Gweithdrefnau Arolygiadau Hylendid Bwyd, a nodai'r trefniadau ar gyfer trefnu, cynllunio a chynnal arolygiadau hylendid bwyd a raglennwyd, ac ar gyfer pennu camau ôl-arolygu priodol. Nodai'r weithdrefn y cynhelid arolygiadau hylendid bwyd yn ôl amlder sy'n berthnasol i risg, gan roi'r flaenoriaeth i fusnesau uchel eu risg a'r rheiny lle'r oedd arolygiadau'n hwyr.

7.5 Fodd bynnag, dangosai adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr arolygiad bod arolygiadau hylendid bwyd ar 153 o fusnesau bwyd yn hwyr, 71 ohonynt yng nghategori risg A i C.

7.6 Dangosai ail adroddiad fod gan 49 o safleoedd ar y gronfa ddata god risg hylendid bwyd ond na roddwyd dyddiad eu harolygiad nesaf iddynt.

7.7 Dangosai hanes arolygiadau hylendid bwyd ar 18 o fusnesau bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad yr ymddangosai y

graddiwyd risg pob un ohonynt yn gywir, ac y cynhaliwyd ailymweliadau lle'r oeddent yn briodol.

7.8 Arolygwyd tri ar ddeg o'r deunaw o safleoedd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.9 Cynhwysai'r weithdrefn arolygu hylendid bwyd ddogfenedig ffurflen cofnodi arolygiadau safonol a alluogai swyddogion i gynnal asesiadau dadansoddi perygl a phwynt rheoli critigol yn systematig. Er bod ffurflen adrodd safonol ynghylch arolygiadau a adewid gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad, ni chyfeirid at hon yn y weithdrefn ddogfenedig. Cynhwysai'r ffurflenni hyn yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.10 Cynhwysai gweithdrefn ddogfenedig wahanol weithdrefnau penodol a ffurflenni safonol, ac ati, ar gyfer arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion yn systematig.

7.11 Adeg yr archwiliad, roedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu a chymeradwyo sefydliadau sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch yn y camau cynnar o gael ei drafftio.

7.12 Sefydlodd archwiliad o 9 ffeil ynghylch siopau cigyddion trwyddedig fod cofnodion yn eithriadol o fanwl, yn gynhwysfawr, ac wedi'u cadw'n dda.

7.13 Roedd copiau o ffurflenni arolygu ac asesu a thrwyddedau siopau cigyddion ar ffeil ym mhob achos, er yr anfonwyd llythyr yn rhoi manylion am droseddau o ran y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol gyda thrwydded mewn un achos.

7.14 Dangosai rhestr o siopau cigyddion, a ddarparwyd yn rhan o ddogfennaeth cyn-arolygu, y bu arolygiad ar un siop cigydd yn hwyr ers mwy na 18 mis adeg argraffu'r rhestr.

7.15 Cynhaliodd swyddogion arolygiadau hylendid bwyd yn unol â lefelau'r awdurdod a roddwyd iddynt.

7.16 Yn gyffredinol, roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg arolygiadau, yn ddealladwy ac yn adferadwy.

Argymhellion

7.17 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder perthnasol, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cwblhau, cynnal a gweithredu gweithdrefn arolygu ddogfenedig ar gyfer Safleoedd Cymeradwy. [Y Safon – 7.4]

Safonau Bwyd

7.18 Nododd Cynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod ar gyfer 2004 - 2005 bod 2431 o fusnesau bwyd yn ei ardal yn destun arolygiadau safonau bwyd.

7.19 Ni nodwyd nifer yr arolygiadau safonau bwyd a raglennwyd yng Nghynllun Gwasanaeth 2004 - 2005, er y rhoddwyd proffil graddio'r risg fel a ganlyn:

Grwp Risg	Cyfanswm y Safleoedd
Uchel	**28**
Canolig	**343**
Isel	**1326**
Dim Risg	**503**
Heb eu Graddio	**231**
Cyfanswm	**2431**

7.20 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2004 - 2005 mai'r nod oedd arolygu 100% o fusnesau a raddiwyd yn rhai 'uchel eu risg', 50% o fusnesau a raddiwyd yn rhai 'risg canolig', ac 20% o fusnesau a raddiwyd yn rhai 'isel eu risg', yn ogystal ag arolygu 27% o fusnesau bwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y ffigurau hyn yn wahanol i'r rhai a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.21 Cynhwysai Llawlyfr Gweithdrefnau Rhif 9, sef 'Ymweliadau Gorfodi', y weithdrefn ar gyfer cynllunio a chynnal arolygiadau safonau bwyd. Nodai'r weithdrefn y cynhelid arolygiadau safonau bwyd yn ôl amlder sy'n berthnasol i risg, gan ddefnyddio cynllun asesu risg LACORS yn sylfaen i'r rhaglen arfaethedig.

7.22 Datgelodd adroddiadau a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod cyfran sylweddol o arolygiadau safonau bwyd yn hwyr, er bod y nifer gwirioneddol yn amrywio mewn dau adroddiad gwahanol. Er hynny, amcangyfrifwyd bod o leiaf 640 o arolygiadau safonau bwyd yn hwyr adeg yr archwiliad, y categoreiddiwyd 3 ohonynt yn rhai uchel eu risg ac a oedd i'w harolygu yn ystod y mis cyn yr archwiliad, ac roedd 50 ohonynt yn rhai risg canolig.

7.23 Nodai hanes arolygiadau safonau bwyd ar 10 busnes bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad, yr arolygwyd 8 ohonynt yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.24 Er na ddogfennwyd y weithdrefn arolygu safonau bwyd yn llawn, roedd ffurflen adrodd arolygiadau safonau bwyd a adewid yn y safle ar ôl cwblhau'r arolygiad ac a gynhwysai'r holl wybodaeth sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.25 Yn gyffredinol, roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg arolygiadau, yn ddealladwy ac yn adferadwy.

Argymhellion

7.26 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder perthnasol, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Estyn ei weithdrefn arolygu safonau bwyd yn unol â Chod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.4]

Bwydydd Anifeiliaid

7.27 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2004 - 2005 bod 539 o safleoedd yn ardal yr Awdurdod, gan gynnwys 253 o gyfanwerthwyr ac adwerthwyr bwyd anifeiliaid anwes, yn destun arolygu o dan ddeddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.

7.28 Nodai'r Awdurdod fod ganddo 231 o safleoedd cofrestredig o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999. Nid oedd unrhyw sefydliadau bwydydd anifeiliaid cymeradwy.

7.29 Ni nodwyd graddau risg a nifer yr arolygiadau a raglennwyd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn yn y Cynllun Gwasanaeth, ond dangosai rhestr a ddarparwyd gyda'r ddogfennaeth cyn-arolygu y cynhaliwyd 18 o arolygiadau ar safleoedd bwydydd anifeiliaid yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2003.

7.30 Nid oedd unrhyw gofnodion i brofi gweithgarwch gorfodi yn y safleoedd bwydydd anifeiliaid cofrestredig a oedd yn weddill.

7.31 Nodai Llawlyfr Gweithdrefnau Rhif 9 drefniadau'r Awdurdod ar gyfer cynllunio a chynnal arolygiadau bwydydd anifeiliaid. Ni ddogfennwyd y weithdrefn yn llawn, ond nodai y byddid yn cynnal arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder a oedd yn berthnasol i risg, gan ddefnyddio cynllun asesu risg LACORS yn sylfaen i raglen arolygu arfaethedig.

Argymhellion

7.32 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau safleoedd bwydydd anifeiliaid yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon - 7.1]

(ii) Dogfennu ei weithdrefn arolygu bwydydd anifeiliaid yn llawn. [Y Safon – 7.4]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau dogfenedig a oedd yn gymwys i gwynion am hylendid bwyd, cwynion am safonau bwyd, cwynion am fwydydd anifeiliaid a chwynion am safleoedd bwyd.

8.2 Adolygwyd yr holl weithdrefnau dogfenedig yn ystod yr 18 mis cyn yr archwiliad, ac roeddent yn gyfredol.

8.3 Archwiliwyd cofnodion 4 o gwynion am hylendid bwyd, 3 cwyn am safonau bwyd, ac 1 gwyn am fwydydd anifeiliaid. Dangosai cofnodion y cynhelid ymchwiliadau trylwyr ac y cymerwyd camau priodol o fewn amserlenni perthnasol ac yn unol â'r polisi gorfodi.

8.4 Datgelai archwiliad o gofnodion 6 achos a gofnodwyd yn gwynion am safleoedd bwyd bod 4 ohonynt, mewn gwirionedd, yn geisiadau am gyngor y rhoddwyd y cod anghywir iddynt ar y gronfa ddata.

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Cofnodai Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2004 – 2005 gefnogaeth yr Awdurdod i Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS, er nad oedd yr Awdurdod wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol.

9.2 Cadarnhâi nifer o bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod bod cysylltiad ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol yn rhan sylfaenol o brosesau gorfodi'r Awdurdod.

9.3 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth fod yr Awdurdod yn gweithredu'n Awdurdod Cartref neu Wreiddiol i 16 o fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid a weithredai yn ei ardal, er nad oedd unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol.

9.4 Ymwelwyd â busnesau yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu'n Awdurdod Cartref neu Wreiddiol iddynt at ddibenion safonau bwyd neu fwydydd anifeiliaid o leiaf unwaith y flwyddyn, fel a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd.

9.5 Roedd cofnodion yn arbennig o gynhwysfawr ac yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn gweithredu rhaglen samplo ac arolygu ragweithiol ac yn cynnig cyngor priodol i'r cwmnïau.

9.6 Cofrestrwyd busnesau yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu'n Awdurdod Cartref ar eu cyfer ar gronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS hefyd, gyda manylion cysylltu swyddogion priodol ym mhob achos. Roedd y cofnodion yn gyfredol.

9.7 Roedd gan swyddogion fynediad Rhyngrwyd at gronfa ddata Awdurdod Cartref LACORS ac, felly, gallent nodi cysylltiadau ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol ac awdurdodau lleol perthnasol.

9.8 Dangosai cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad fod yr Awdurdod yn gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn effeithiol, ac yn ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau gorfodi eraill.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosodd yr Awdurdod ymagwedd flaengar at helpu busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith, fel a ddangoswyd gan nifer o fentrau a weithredwyd neu a oedd yn cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynhyrchu taflenni ar hylendid bwyd a diogelwch bwyd;
- Cynnig cyngor am gymeradwyo a chofrestru bwydydd anifeiliaid;
- Rhoi gwybodaeth i gigyddion ar Gryno Ddisg, gan gynnwys cyngor ynghylch labelu cig eidion, cynhyrchion cig, dyddiadau 'i'w ddefnyddio erbyn', a labelu o ran maeth;
- Defnyddio gwefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd i achosi bod gwybodaeth ar gael i fusnesau;
- Dosbarthu arweiniad i weithredwyr a deiliaid stondinau mewn marchnadoedd ffermwyr;
- Cynnig arweiniad ynghylch HACCP;
- Cynnig cyngor i fusnesau newydd.

10.2 Roedd tystiolaeth y rhoddid cyngor yn rheolaidd ar gais ac yn ystod archwiliadau.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu system electronig ar gyfer gwybodaeth a rheoli data i Adran Gwarchod y Cyhoedd, a oedd yn cadw manylion y safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Yn ddiweddar, gweithredwyd gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod y gronfa ddata safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol, ac y gweithredid mesurau diogelwch rhesymol i atal pobl anawdurdodedig rhag cael mynediad i'r gronfa ddata a'i newid.

11.3 Hefyd, roedd tystiolaeth y bu Gweinyddwyr y System yn gwirio cywirdeb a chyfanrwydd y data yn rheolaidd ac yn systematig, ac yn cywiro unrhyw wallau a ganfuwyd.

11.4 Nodwyd dau wall yn y data yn ystod yr archwiliad, a'r cyntaf oedd cam-godio ceisiadau am gyngor yn gwynion am safleoedd bwyd. Cam-gynrychiolai hyn nifer y cwynion am safleoedd bwyd a gofnodwyd gan yr Awdurdod ac a adroddwyd i Asiantaeth Safonau Bwyd yn ffurflenni monitro chwarterol yr Awdurdod. Yr ail wall oedd codio a chau cofnodion clefydau trosglwyddadwy.

11.5 Roedd gan Weinyddwyr y System gyfrifoldeb am greu cyfrifon a chyfrineiriau defnyddwyr y gronfa ddata, a gosod lefelau diogelwch defnyddwyr.

11.6 Yn ystod yr archwiliad, dewiswyd 11 o safleoedd bwyd yn ardal yr Awdurdod ar hap o'r cyfeiriadur busnes lleol. Cofnodwyd pob un ohonynt ar y gronfa ddata a'u cynnwys yn y rhaglenni arolygu perthnasol.

Argymhelliad

11.7 Dylai'r Awdurdod:

Weithredu ei weithdrefn yn llawn i sicrhau bod data a gofnodir yn y gronfa ddata yn gywir. [Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o ran ildio bwyd yn wirfoddol, er nad oedd yn cael ei gweithredu'n gyson gan swyddogion.

12.2 Nid oedd yn bosibl pennu dull, amser na lleoliad y gwaredu mewn 5 o'r 6 achos lle ildiwyd bwyd yn wirfoddol i'r Awdurdod i'w ddinistrio.

12.3 Ymdriniwyd â'r un achos lle atafaelwyd bwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd yn unol â gofynion cyfreithiol ac o fewn yr amserlenni perthnasol.

12.4 Roedd gan yr Awdurdod bolisïau, gweithdrefnau a rhaglenni blynyddol dogfenedig ar gyfer samplo hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd polisi samplo bwyd a bwydydd anifeiliaid yr Awdurdod ar gael ar ei wefan ar y Rhyngrwyd.

12.5 Roedd tystiolaeth bod yr awdurdod yn ymgymryd ag ystod o weithgaredd samplo a anelwyd at ystod o gynhyrchion a gynhyrchid ac a weithgynhyrchid yn lleol, a'i fod yn cymryd rhan weithgar mewn arolygon a gyd-drefnir yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

12.6 Rhestrai adroddiadau a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod yn rhan o ddogfennaeth cyn-archwilio, 174 o samplau hylendid bwyd, 125 o samplau safonau bwyd, a 32 o samplau bwydydd anifeiliaid a gymerwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf - 31 Rhagfyr 2003.

12.7 Hefyd, cynhaliwyd ymchwiliadau helaeth gan yr Awdurdod i'r fasnach mewn cig anifeiliaid a laddwyd yn anghyfreithlon, a chynhaliwyd gweithgareddau a dargedwyd i olrhain ffynhonnell y cig mewn siopau cigyddion ledled ei ardal yn ystod y 12 mis cyn yr archwiliad.

12.8 Roedd y labordai a ddefnyddiwyd gan yr Awdurdod i archwilio a dadansoddi samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid wedi'u hachredu'n briodol, ac roeddent ar y rhestr o Labordai Swyddogol y rhoddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wybod amdanynt i'r Comisiwn Ewropeaidd.

12.9 Ymddangosai fod dogfennaeth o ran penodi Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol yr Awdurdod yn anghyson â gofynion i benodi unigolion i'r swyddi hyn a fodlonai meini prawf penodi penodedig.

Hylendid Bwyd

12.10 Dangosai Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2004 - 2005 mai bwriad yr Awdurdod oedd cymryd rhyw 400 o samplau hylendid bwyd a chymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Cymru ac arolygon eraill a gyd-drefnwyd yn ystod y flwyddyn.

12.11 Ymddangosai fod nifer y samplau hylendid bwyd a gymerwyd yn bodloni'r nod, a bod y rheiny a gymerwyd, yn gyffredinol, yn cyfateb i'r rhaglen samplo hylendid bwyd arfaethedig.

12.12 Y tro diwethaf yr adolygwyd y weithdrefn samplo hylendid bwyd ddogfenedig oedd ym mis Ebrill 2002, ac roedd yn gyfoes.

12.13 Archwiliwyd cofnodion 9 o samplau hylendid bwyd, y cymerwyd pob un gan swyddogion ag awdurdod priodol. Dangosai cofnodion y cymerwyd camau dilynol priodol o ran canlyniadau anfoddhaol ym mhob un o'r 9 achos.

Safonau Bwyd

12.14 Dangosai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cymryd 200 o samplau safonau bwyd yn ystod 2004 - 2005.

12.15 Adeg yr archwiliad, ymddangosai fod nifer y samplau safonau bwyd a gymerwyd yn cyrraedd y nod, ac roedd y rheiny a gymerwyd yn cyfateb i'r rhaglen samplo safonau bwyd arfaethedig.

12.16 Y tro diwethaf yr adolygwyd y weithdrefn samplo safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ddogfenedig oedd ym mis Ionawr 2003, ac roedd yn gyfredol.

12.17 Archwiliwyd cofnodion 10 o samplau safonau bwyd, y cofnodwyd bod canlyniadau 3 ohonynt yn 'anfoddhaol'.

12.18 Cadarnhâi cofnodion y cymerwyd camau dilynol priodol o ran y canlyniadau anfoddhaol ym mhob achos, yn unol â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod.

Bwydydd Anifeiliaid

12.19 Dangosai'r Cynllun Gwasanaeth mai bwriad yr Awdurdod oedd cymryd 95 o samplau bwydydd anifeiliaid yn ystod 2004 – 2005.

12.20 Archwiliwyd cofnodion 6 o samplau bwydydd anifeiliaid, yr ymdriniwyd â phob un ohonynt yn briodol.

12.21 Ymddangosai fod nifer y samplau bwydydd anifeiliaid a gymerwyd yn cyrraedd y nod.

Argymhellion

12.22 Dylai'r Awdurdod:

(i) O ran ildio bwydydd anifeiliaid yn wirfoddol, sicrhau y gweithredir gofynion Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod, ac y cedwir cofnodion priodol. [Y Safon – 12.1]

(ii) Adolygu a diweddaru penodiadau Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol yr Awdurdod, gan gymryd i ystyriaeth holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Codau Ymarfer cysylltiedig a Deddf Amaethyddiaeth 1970. [Y Safon – 12.7]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Sefydlodd yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o'r enw 'Cynllun Powys ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Wenwyn Bwyd a Chyflyrau Perthynol Eraill' (yr OCP) ar y cyd â rhanddeiliaid eraill.

13.2 Nodai'r OCP bod Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC(90)64 yn ei wneud yn ofynnol adolygu'r fath gynlluniau'n flynyddol, a'u diwygio pe bai angen.

13.3 Cynhwysai'r OCP wybodaeth a oedd wedi dyddio ers meitin, ac ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau dogfenedig i'r OCP ers mis Tachwedd 1999.

13.4 Nodwyd bod model diwygiedig i Gymru'n cael ei ddrafftio gan Banel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy, a bod yr Awdurdod yn disgwyl i'r model diwygiedig gael ei gyhoeddi cyn adolygu ei OCP.

13.5 Cyfranogodd yr Awdurdod mewn ymarfer achos ffug o wenwyn bwyd â rhanddeiliaid eraill i brofi gweithdrefnau a datblygu arbenigedd wrth ymdrin â'r fath achosion.

13.6 Ni roddwyd gwybod am unrhyw achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad, er yr ymdriniodd yr Awdurdod â nifer o achosion o heintiad gastroberfeddol firaol.

13.7 Ymddangosai fod un digwyddiad, a adroddwyd yn achos achlysurol o heintiad E. coli O157, yn achos, yng nghofnodion yr Awdurdod. Roedd tystiolaeth y cynhaliwyd ymchwiliad cynhwysfawr a oedd, yn fras, yn unol â'r OCP.

13.8 Hefyd, yn ddiweddar, sefydlodd yr Awdurdod brotocolau ar gyfer Ymchwilio i Achosion Achlysurol o Glefydau a Gludir gan Fwyd ac ar gyfer Ymchwilio i Achosion Achlysurol o E. coli O157.

13.9 Archwiliwyd cofnodion 12 o rybuddion am achosion achlysurol ac, ym mwyafrif yr achosion, cafwyd ymateb amserol a phriodol i'r rhybuddion, gyda chydweithio agos â phartïon eraill oedd â diddordeb lle bu'n ofynnol.

13.10 Fodd bynnag, roedd bylchau mewn rhai cofnodion ac, felly, nid oedd yn bosibl cadarnhau y cymerwyd camau priodol yn ystod pob cam o'r ymchwiliadau.

13.11 Hefyd, nodwyd y rhoddwyd codau anghywir i rai o'r cofnodion yng nghronfa ddata clefydau trosglwyddadwy, bod codau ar goll mewn rhai cofnodion, ac na chaewyd rhai cofnodion ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Argymhellion

13.12 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff yr OCP ei adolygu'n flynyddol, a'i ddiweddaru pe bai angen, ar y cyd â sefydliadau perthnasol eraill.
[Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau y dilynir gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol, ac y cedwir cofnodion ymchwilio cyflawn. [Y Safon - 13.2]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer Rhybuddion Diogelwch Bwyd a gynhwysai drefniadau ar gyfer ymateb i Rybuddion Diogelwch Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar gyfer rhoi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigwyddiadau lleoledig difrifol a phroblemau diogelwch bwyd ehangach a nodwyd yn lleol.

14.2 Dyddiwyd y weithdrefn ddogfenedig Ebrill 2002, ond ni chynhwysai, yn benodol, drefniadau'r Awdurdod ar gyfer ymateb i Ddigwyddiadau Diogelwch Bwyd, ac nid oedd ychwaith yn nodi'r camau i'w cymryd o dderbyn Rhybudd Perygl Bwyd neu Rybudd Digwyddiad Bwyd y tu allan i oriau gwaith arferol yr Awdurdod.

14.3 Rhoddwyd gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am drefniadau cysylltu'r Awdurdod y tu allan i oriau gwaith, ond ni nodai llawlyfr y swyddog ar ddyletswydd y tu allan i oriau gwaith pa gamau y dylai'r swyddog ar ddyletswydd eu cymryd o dderbyn Rhybudd Perygl Bwyd neu Rybudd Digwyddiad Bwyd.

14.4 Cynhwysai'r weithdrefn ddogfenedig gyfeiriad at ddogfen a oedd wedi dyddio ac yr oedd angen adolygu a diweddaru trylwyr arni.

14.5 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd, ac roedd wedi trefnu ag Asiantaeth Safonau Bwyd anfon Rhybuddion Perygl Bwyd yn uniongyrchol at swyddogion allweddol drwy negeseuon e-bost.

14.6 Cadarnhâi archwiliad o gofnodion Rhybuddion Perygl Bwyd yr Awdurdod, a gyhoeddwyd yn ystod y 18 mis cyn yr archwiliad, y cawsant eu derbyn a'u gweithredu'n briodol yn unol â chyngor Asiantaeth Safonau Bwyd. Yn gyffredinol, dogfennwyd ymatebion a chanlyniadau ym mhob swyddfa ranbarth, er bod bylchau yn y wybodaeth a gofnodid mewn rhai achosion.

Argymhellion

14.7 Dylai'r Awdurdod:

(i) Gynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd a dderbynnir gan Asiantaeth Safonau Bwyd, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Dylai hyn gynnwys trefniadau y tu allan i oriau gwaith. [Y Safon – 14.1]

(ii)	Dogfennu ei ymateb i bob Rhybudd Perygl Bwyd yn llawn, a'u canlyniadau. [Y Safon – 14.3]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi Gorfodi Cyfarwyddiaeth Grwp y Gwasanaethau Cymunedol dogfenedig a gynhwysai gorfodi diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Seiliwyd y polisi ar chwe egwyddor arweiniol gorfodaeth dda a nodwyd yn y Concordat Gorfodi.

15.2 Cymeradwywyd y polisi gorfodi gan Fwrdd yr Awdurdod ym mis Mai 2002, ac roedd ar gael o adeiladau dinesig ac ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd.

15.3 Roedd gan yr Adran Safonau Masnach weithdrefn ddogfenedig ar gyfer Ymchwilio, Adrodd am a Phrosesu Troseddau, er nad oedd yn cynnwys rhybuddion ffurfiol.

15.4 Roedd gan Adran Iechyd yr Amgylchedd weithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweinyddu Rhybuddion Ffurfiol ac Atafaelu a Chadw Bwyd, a oedd ar ffurf ddrafft adeg yr archwiliad.

15.5 Dywedodd yr Awdurdod y cymerwyd y camau gorfodi canlynol ganddo yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

1 Erlyniad;
7 rhybudd ffurfiol;
3 Rhybudd Gwahardd Brys;
46 Rhybudd Gwella a oedd yn ymwneud ag 20 o safleoedd;
3 achos o gau safleoedd bwyd yn wirfoddol;
1 achos o atafaelu bwyd a oedd yn ymwneud â'r un safle;
12 achos o ildio bwyd yn wirfoddol.

15.6 Roedd yn amlwg bod swyddogion yn defnyddio ystod lawn y dewisiadau gorfodi, ac y bu eu penderfyniadau'n briodol ac yn gymesur, a'u bod yn cymryd amgylchiadau penodol pob achos i ystyriaeth.

15.7 Archwiliwyd cofnodion 5 erlyniad, 5 rhybudd ffurfiol, 3 Rhybudd Gwahardd Brys, 3 achos o gau safleoedd bwyd yn wirfoddol, 10 Rhybudd Gwella, 1 achos o atafaelu bwyd, a 7 achos o ildio bwyd yn wirfoddol, a'u gwirio yn erbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, y polisi gorfodi, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.8 Awdurdodwyd pob erlyniad gan Gyfarwyddwr y Grwp, y dirprwywyd iddo'r awdurdod i wneud hynny o dan Gyfansoddiad yr Awdurdod.

15.9 Dangosai cofnodion achosion a arweiniodd at erlyniad yr ystyriwyd darpariaethau'r polisi gorfodi, gan gynnwys profion tystiolaethol a lles y

cyhoedd, y cymerwyd Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) a gofynion Cod PACE i ystyriaeth.

15.10 Fodd bynnag, adeg yr archwiliad, nid oedd cofnodion yn ddigonol i ddangos y gweithredwyd gofynion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio yn llawn.

15.11 Nodai'r Polisi Gorfodi y gallai "uwch swyddog priodol yn yr Adran" gyhoeddi rhybuddion ffurfiol.

Hylendid Bwyd

15.12 Roedd Arweinydd y Tîm Bwyd neu Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd wedi rhoi Rhybuddion ffurfiol o ran materion hylendid bwyd.

15.13 Roedd cofnodion ynghylch Rhybuddion Ffurfiol o ran materion hylendid bwyd yn anghyson ac yn anghyflawn ac, felly, nid oedd yn bosibl cadarnhau y gweithredwyd y polisi gorfodi ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, yn llawn. Cynhwysai un Rhybudd Ffurfiol ynghylch materion hylendid bwyd gyfeiriad at ddeddfwriaeth anghywir.

15.14 Cyhoeddwyd Rhybuddion Gwahardd Brys mewn amgylchiadau priodol, a chyflwynwyd ceisiadau i'r Llys am Orchmynion Gwahardd Brys oddi mewn i'r cyfnod statudol mewn 2 o'r 3 achos a archwiliwyd. Archifwyd cofnodion y trydydd achos, ac nid oedd modd eu hadfer adeg yr archwiliad.

15.15 Nid oedd gwybodaeth a oedd ar ffeil yn ddigonol i bennu a godwyd Gorchmynion Gwahardd Brys ar unwaith ar ôl yr aethpwyd i'r afael â materion yr oedd arnynt angen sylw ac, roedd yn aneglur yn ogystal a fonitrwyd amodau tra bod y rhybuddion neu'r gorchmynion mewn grym.

15.16 Archwiliwyd cofnodion 10 o Rybuddion Gwella yr adroddodd yr Awdurdod iddo eu cyflwyno. O'r ffeil, ymddangosai y rhoddwyd y cod anghywir ar y gronfa ddata i un o'r rhain, am y paratowyd y rhybudd ond na chafodd ei gyflwyno.

15.17 Yn y 9 achos a oedd yn weddill, cyflwynwyd Rhybuddion Gwella gan swyddogion a awdurdodwyd yn gywir ac mewn amgylchiadau priodol, er na chynhwysai copïau ar ffeil wybodaeth am yr apêl mewn 4 achos, a dim ond 2 gopi a gynhwysai gyfeiriad ar gyfer y Llys Ynadon lleol.

15.18 Cafwyd camau dilynol priodol ac amserol i wirio cydymffurfiad mewn 7 achos, ac anfonwyd llythyr i gadarnhau cydymffurfiad mewn 8 achos.

15.19 Roedd cofnodion 3 achos lle cofnodwyd i safleoedd bwyd gytuno i gau yn wirfoddol, yn annigonol i ddangos bod cau yn gam priodol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth y cadarnhawyd y cytundebau i gau yn ysgrifenedig, nac o'r materion y bu'n ofynnol i'r perchennog eu cywiro cyn ailagor.

15.20 Yn yr un achos lle atafaelwyd bwyd yn ffurfiol, dangosai cofnodion y dilynwyd gweithdrefnau statudol.

15.21 Archwiliwyd cofnodion 7 achos a gofnodwyd ar gronfa ddata'r Awdurdod yn achosion o ildio bwyd yn wirfoddol. Nid oedd un o'r rhain, mewn gwirionedd, yn achos o ildio bwyd yn wirfoddol, ond rhoddwyd y cod anghywir iddo fel y cyfryw ar y gronfa ddata.

15.22 O'r 6 achos a oedd yn weddill, nid oedd y wybodaeth ar ffeil yn ddigonol i bennu amser, lleoliad na dull y gwaredu mewn 5 achos, ac nid oedd derbynneb ar ffeil yn y chweched achos.

Safonau Bwyd

15.23 Rhoddwyd y rhybuddion ffurfiol a gyhoeddwyd o ran materion safonau bwyd gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Safonau Masnach neu Reolwr Cynorthwyol Safonau Masnach.

15.24 Dogfennwyd rhybuddion ffurfiol o ran materion safonau bwyd yn eithriadol o dda, ac roedd y wybodaeth a gofnodwyd yn gyson, yn gynhwysfawr, ac yn ddigonol i gadarnhau y dilynwyd y polisi gorfodi ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

Bwydydd Anifeiliaid

15.25 Ni chafwyd unrhyw erlyniadau neu rybuddion ffurfiol o ran materion bwydydd anifeiliaid yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhellion

15.26 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff y polisi gorfodi dogfenedig ei weithredu'n llawn, yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.1]

(ii) Sicrhau y gorfodir cyfraith fwyd yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.2]

(iii) Sicrhau y gwneir yr holl benderfyniadau ynghylch camau gorfodi yn dilyn ystyriaeth o'r polisi gorfodi, ac y nodir unrhyw wyriadau oddi wrtho ac y dogfennir y rhesymau.
[Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cedwid cofnodion am safleoedd lle'r oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn system rheoli data a gwybodaeth gyfrifiadurol Adran Gwarchod y Cyhoedd, ac ar ffurf ffeiliau copi caled a gedwid yn ganolog mewn system archif.

16.2 Yn gyffredinol, cedwid cofnodion am safleoedd a ddefnyddiwyd gan fusnesau bwyd neu fwydydd anifeiliaid am o leiaf 6 blynedd am y cyfnod hwnnw, er na ellid adfer ffeil un safle a archifwyd mewn pryd i'r archwiliad.

Hylendid Bwyd

16.3 Roedd cofnodion arolygu hylendid bwyd safleoedd a oedd yn destun y rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol, gan gynnwys cigyddion trwyddedig, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, a chedwid copïau o adroddiadau arolygu, ffurflenni cais a thrwyddedau siopau cigyddion ym mhob ffeil a archwiliwyd.

16.4 Cynhwysai cofnodion am safleoedd wybodaeth am faint a graddfa'r busnes, disgrifiad o'r gweithgareddau a wnaed, gwybodaeth am hyfforddiant hylendid i'r staff, asesiad dadansoddi perygl, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, graddau risg, camau gorfodi, cwynion yn erbyn y busnes, a chopïau o ohebiaeth.

16.5 Adlewyrchai gohebiaeth ofynion Cod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. Gwahaniaethwyd yn eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, ac roedd materion yr oedd arnynt angen sylw, rhesymau, ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio yn briodol, wedi'u nodi'n eglur ac yn ddealladwy. Anfonwyd llythyrau ôl-arolygu o fewn cyfnod rhesymol ar ôl yr arolygiad.

16.6 Roedd cofnodion cymeradwyo ac arolygu safleoedd a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch a gymeradwywyd neu a arolygwyd yn ystod y 3 blynedd cyn yr archwiliad, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda. Nid oedd y rheiny a gymeradwywyd neu a arolygwyd yn llai diweddar mor fanwl.

16.7 Nodwyd bod gwelliannau sylweddol yn cael eu cyflawni yn ansawdd a chyfanswm y wybodaeth yr oedd gan yr Awdurdod ynghylch Safleoedd Cymeradwy, a gyflawnid trwy ddefnyddio cymhorthion cof cymeradwyo ac arolygu.

16.8 Roedd cofnodion samplo a archwiliwyd yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac yn dangos bod yr Awdurdod wedi cyfathrebu â busnesau a dilyn canlyniadau samplau'n briodol.

16.9 Nid oedd cofnodion ynghylch ildio bwyd yn wirfoddol, cau safleoedd bwyd yn wirfoddol, rhybuddion ffurfiol am faterion hylendid bwyd, a chyflwyno a chymryd camau dilynol ynghylch Rhybuddion a Gorchmynion Gwahardd Brys, yn ddigonol i ddangos y dilynwyd gweithdrefnau priodol.

Safonau Bwyd

16.10 Gwnaed cofnodion arolygu safonau bwyd ar ffurflenni safonol i adrodd am arolygiadau, a fodlonai ofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, er na lenwyd ffurflenni'n llawn ym mhob achos, gan adael bylchau yn y wybodaeth ar ffeil ynghylch rhai busnesau.

16.11 Cynhwysai cofnodion y proffil busnes, disgrifiad o'r gweithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, asesiad o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, cwynion yn erbyn y busnes, manylion a chanlyniadau samplau, a chopïau o ohebiaeth.

Bwydydd Anifeiliaid

16.12 Gwnaed cofnodion ynghylch arolygiadau ar sefydliadau a gofrestrwyd o dan reoliadau bwydydd anifeiliaid yn systematig ar ffurflenni safonol i adrodd am arolygiadau bwydydd anifeiliaid.

16.13 Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y safleoedd a restrwyd ar gofrestr swyddogol yr Awdurdod o safleoedd, a gofrestrwyd o dan Reoliadau Bwydydd anifeiliaid, yn cyd-fynd â'r rhestr o safleoedd cofrestredig a gyflwynwyd gyda'r ddogfennaeth cyn-arolygu.

Argymhellion

16.14 Dylai'r Awdurdod:

(i) Gynnal cofnodion cywir cyfredol ar ffurf adferadwy ar gyfer yr holl safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal, yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 16.1]

(ii) Sicrhau bod cofnodion yn cynnwys adroddiadau ar yr holl arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, asesiadau graddio'r risg, canlyniadau samplau a manylion am gamau

dilynol, manylion am gwynion, camau anffurfiol a ffurfiol, copïau o geisiadau a phenderfyniadau o ran cofrestru, cymeradwyo a thrwyddedu, a chopïau o'r holl rybuddion, tystysgrifau a gohebiaeth. [Y Safon - 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu cynllun cwyno corfforaethol o dan y pennawd 'Dweud eich Dweud', a alluogai aelodau o'r gymuned ac eraill a effeithid gan y gwasanaethau a ddarperid gan yr Awdurdod a'r modd y'u darparodd, i leisio'u barn.

17.2 Roedd y weithdrefn ar gael yn rhwydd ar ffurf llyfryn o adeiladau dinesig, ac roedd hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd. Hefyd, roedd taflenni ar gael a oedd yn crynhoi'r weithdrefn gorfforaethol ac a roddai wybodaeth benodol am adrannau unigol, gan gynnwys Adrannau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

17.3 Hefyd, roedd gweithdrefn ddogfenedig a roddai fanylion am y camau i'w cymryd pe derbynnid cwyn a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth a ddarperid gan Gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymunedol, a gynhwysai Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

17.4 Cofnodwyd un gwyn yn erbyn y gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad. Ymchwiliwyd i'r gwyn ac ymatebwyd iddi'n fras yn unol â'r weithdrefn gorfforaethol.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu priodol ag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad gweithredol yn y cyrff cysylltu canlynol:

- Grwp Safonau Bwyd ac Amaethyddol dros Gymru;
- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Orllewin Cymru;
- Grwp Cyswllt Safonau Bwyd ac Amaethyddol De Orllewin Cymru;
- Grwp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De Orllewin Cymru;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru.

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael, ac roeddent yn cadarnhau presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr gwasanaeth priodol.

18.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu cysylltiadau â'r sefydliadau canlynol:

- Cynghrair Iechyd Powys;
- Menter yr Ifanc Cymru;
- Cyswllt Bwyd Powys;
- Yr Awdurdod Iechyd;
- Colegau lleol a darparwyr hyfforddiant eraill;
- Partneriaeth Busnes Lleol;
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Gwasanaeth Hylendid Cig;
- LACORS (Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol);
- DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig);
- Heddlu Dyfed Powys;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- CIEH (Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd);
- TSI (Sefydliad Safonau Masnach).

18.4 Roedd Aelod Portffolio'r Awdurdod ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol hefyd yn Aelod Gweithredol Safonau Masnach ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

19 Monitro Mewnol

19.1 Gweithredwyd gweithdrefn fonitro fewnol ddogfenedig o ran materion gorfodi hylendid bwyd ers mis Tachwedd 2003.

19.2 Asesai'r weithdrefn monitro gorfodi hylendid bwyd:

- Ymlyniad wrth y rhaglen arolygu arfaethedig;
- Blaenoriaethu arolygiadau;
- Cydymffurfiad â Chodau Ymarfer ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog;
- Ystyriaeth o ganllawiau'r diwydiant o ran ymarfer hylendid bwyd;
- Cydymffurfiad â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod;
- Priodoldeb graddio yr arolygiadau;
- Cysondeb dehongli a gweithredu.

19.3 Defnyddiwyd gweithdrefnau monitro amrywiol, gan gynnwys:

- Gwirio ffeiliau;
- Monitro gohebiaeth;
- Arolygiadau yng nghwmni rhywun arall;
- Cydweithio a chyfarfodydd tîm.

19.4 Er mai dim ond yn ddiweddar y gweithredwyd y weithdrefn monitro hylendid bwyd, roedd tystiolaeth y cynhelid cyfarfodydd tîm rheolaidd ers meitin, a bod monitro arall yn cael ei wneud a'i gofnodi.

19.5 Hefyd, roedd tystiolaeth bod Gweinyddwyr y System yn monitro'r gronfa ddata yn systematig, a bod hyn yn effeithiol, fel a ddangoswyd gan nifer cymharol fach y gwallau a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.

19.6 Crybwyllid monitro mewnol o ran materion safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid mewn nifer o Lawlyfrau Gweithdrefnau Safonau Masnach, ac roedd tystiolaeth bod monitro'n digwydd. Cynhyrchwyd adroddiad archwilio mewnol ar gyfer 2003, lle nodwyd nifer bach o feysydd i'w gwella.

19.7 Fodd bynnag, nodwyd nad oedd cwmpas yr archwiliad mewnol i safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ymddangos yn ddigon eang i ddatgelu'r ôl-groniad sylweddol o arolygiadau safonau bwyd, neu'r diffyg arolygu ar gymysgwyr ar-y-fferm a ddatgelwyd yn ystod archwiliad Asiantaeth Safonau Bwyd.

19.8 Dangosai cofnodion cyfarfodydd y swyddfa Safonau Masnach a chyfarfodydd iechyd anifeiliaid, a chofnodion cyfarfodydd cyswllt rhwng

adrannau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, fod materion gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn cael eu trafod yn rheolaidd. Cawsai staff eu briffio ynghylch gwybodaeth a pherfformiad corfforaethol ac adrannol, a chaent gyfle i drafod gwybodaeth fonitro a materion perthnasol eraill gyda golwg ar sicrhau cysondeb.

Argymhelliad

19.9 Dylai'r Awdurdod:

Wirio ei gydymffurfiad â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog a'i bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ei hun.
[Y Safon – 19.2]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Roedd yr Awdurdod wedi cyfranogi mewn nifer o ymarferion adolygu gan drydydd parti a oedd yn berthnasol i'w wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

20.2 Roedd y rhain yn cynnwys:

- Archwiliad Hylendid Bwyd Rhyng-Awdurdod Cymru gyfan (1999);
- Adroddiad Archwilio Mewnol ar Ffïoedd Dadansoddwyr a Chynhyrchion Prawf (1999);
- Archwiliad Buddsoddwyr mewn Pobl Dysgu ac Addysgu Cymru (2002);
- Archwiliad Ar-wylio Cudd Swyddfa'r Comisiynwyr Ar-wylio (2003).

20.3 Roedd tystiolaeth bod yr Awdurdod wedi ystyried argymhellion a wnaed ac wedi cymryd camau priodol, gan gynnwys adolygu a diwygio gweithdrefnau a dogfennaeth lle bu'n ofynnol.

20.4 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan mewn nifer o ymarferion meincnodi mewn meysydd sy'n berthnasol i'r gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid, gan gynnwys:

- Canolfan gyfeirio meincnodi llywodraeth leol (1999);
- Meincnodi gwasanaethau iechyd yr amgylchedd– 'Ymagwedd Archwiliad Deuluol' (2000);
- Ymarfer meincnodi SYNIAD ar samplo bwyd a chwynion am fwyd (2001);
- Ymarfer meincnodi SYNIAD ar glefydau trosglwyddadwy (2002);
- Ymarfer meincnodi Nuneaton a Bedworth ar werth gorau a diogelwch bwyd (2002).

20.5 Galluogai cynllun adborth cwsmeriaid i'r Awdurdod dderbyn awgrymiadau a sylwadau gan ei fusnesau a defnyddwyr unigol y gwasanaethau. Defnyddid y rhain i gynllunio gwelliannau i'r

gwasanaethau a ddarperid ganddo, ac i fodloni anghenion a disgwyliadau defnyddwyr ei wasanaethau yn well.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Bu'r Awdurdod yn weithgar iawn wrth hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

21.2 Roedd Adran Gwarchod y Cyhoedd wedi cychwyn a/neu gyfranogi mewn ystod eang o weithgareddau hyrwyddo, ac roedd ganddi gynlluniau am fwy o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Wythnos Genedlaethol Diogelwch Bwyd;
- Defnyddiwr Ifanc y Flwyddyn;
- Cystadleuaeth Cogydd Cyri'r Flwyddyn;
- Mentrau HACCP;
- Cynllun Gwobrau Curiad Calon;
- Cynllun Gwobrau Hylendid Bwyd Cymru;
- Hyfforddiant labelu cig eidion i gigyddion;
- Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru;
- Yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Cystadleuaeth poster golchi dwylo;
- Areithiau a chyflwyniadau *ad hoc*;
- 'Ask Cedric'.

21.3 Roedd yr Awdurdod yn ganolfan cofrestredig ar gyfer cynnig cyrsiau hyfforddi CIEH, ond nid oedd wrthi'n weithgar yn cynnig hyfforddiant adeg yr archwiliad. Cyfeiriwyd ymholiadau am y fath hyfforddiant i ddarparwyr hyfforddiant cofrestredig eraill yn yr ardal.

21.4 Cyhoeddai'r Adran ddatganiadau rheolaidd i'r wasg ar ystod o faterion a ddilynwyd ac a gyhoeddwyd gan y wasg leol a rhanbarthol ac yn y cyfryngau darlledu.

21.5 Cynhwysai gwefan gorfforaethol yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd ddetholiad cynhwysfawr o wybodaeth am ddiogelwch a safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

Archwilwyr: **Jane Davies**
Rob Wilkins
Keith Blake
Lindsay Horth
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio

	cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â

	gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.

Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.